CWRICWLWM I GYMRU

IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

# Tanio'r Targed


## CYMRAEG AIL IAITH AR GYFER OEDRANNAU 11–14

- Addas ar gyfer bob ystod gallu
- Ffocws ar Gymru a Llenyddiaeth
- Dull addysgu yn seiliedig ar sgiliau

Rebecca Boyle, Connor Keyes, Nicola Lewis, Alison Lloyd, Dafydd Roberts, Tina Thomas, Sian Vaughan, Keiron Williams, Tudur Dylan Jones

**LLYFRYN ENGHREIFFTIOL**

Yn cynnwys uned arbennig gan y prifardd Tudur Dylan Jones



Gwasg Prifysgol Cymru
University of Wales Press

Boost

HODDER EDUCATION
LEARN MORE

# Tanio’r Targed

**CYMRAEG AIL IAITH AR GYFER OEDRANNAU 11–14**

**Argraffedig a digidol**

**NEWYDD AR GYFER 2021**

## Llyfr Myfyrwyr

**Anogwch fyfyrwyr i ymgysylltu â’r Gymraeg wrth iddynt ddarganfod mwy am eu gwlad, eu llenyddiaeth a’u treftadaeth, tra’n datblygu’r sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu sydd eu hangen ar gyfer TGAU.**

Wedi’i gynllunio gan dîm o arbenigwyr pwnc, mae’r Llyfr Myfyrwyr hygyrch hwn yn dilyn dull dysgu sy’n seiliedig ar sgiliau.

- Darganfod cyfoeth o adnoddau a gweithgareddau newydd: bydd y cwrs un llyfr cost-effeithiol hwn yn helpu i ddatblygu dysgwyr uchelgeisiol a galluog ac ysbrydoli cariad at y Gymraeg
- Helpu pob myfyriwr i symud ymlaen gyda chynnwys gwahaniaethol sydd wedi’i gynllunio i ddarparu ar gyfer lefelau amrywiol o wybodaeth a gallu
- Archwilio diwylliant, hunaniaeth a llenyddiaeth Cymru gyda’ch myfyrwyr, gan weithio drwy weithgareddau difyr sy’n eu galluogi i gael hwyl gyda thafodiaith, ysgrifennu eu barddoniaeth eu hunain a dadansoddi dramâu
- Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ramadeg a geirfa ar draws gwahanol gyd-destunau gyda dull seiliedig ar sgiliau o siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu
- Gosod sylfeini cadarn ar gyfer TGAU: mae cwestiynau yn arddull PISA, fideos, llenyddiaeth, sgiliau cyfieithu a sgiliau prawf ddarllen yn cael eu cyflwyno’n raddol, gan baratoi myfyrwyr ar gyfer cynnwys a mathau o gwestiynau TGAU
- Cydweithio â’ch adrannau Saesneg ac ITM gyda nodiadau athrawon sy’n dangos cysylltiadau trawsgwricwlaidd




Llyfr Myfyrwyr
£26.99 • Mehefin 2021
ISBN: 9781398312531




eLyfr Boost
Tanysgrifiad blwyddyn: £7.00
Hydref 2021
ISBN: 9781398328426

## Boost: Adnoddau digidol i athrawon

Rhowch yr holl ganllawiau a deunyddiau sydd eu hangen ar eich adran i gynllunio, addysgu ac asesu eich cwrs Cymraeg yn hyderus.

**eLyfr Boost: Mae eich tanysgrifiad Boost yn cynnwys mynediad i eLyfr Boost Tanio’r Targed ar gyfer cynllunio ac addysgu ym mlaen ddosbarth. Gallwch ychwanegu eLyfrau ychwanegol at eich tanysgrifiad Craidd ar gyfer myfyrwyr, neu uwchraddio i’r tanysgrifiad Premiwm ar gyfer eLyfrau diderfyn.**




Tanysgrifiad craidd (1 flwyddyn): £200
Tanysgrifiad premiwm (1 flwyddyn): £575
Hydref 2021
ISBN: 9781398328402

**Boost**

Beth yw **eLyfrau Boost**? Beth sydd wedi’i gynnwys yn adnoddau digidol **Tanio’r Targed Boost**? Gallwch weld ar y dudalen gyferbyn.

# Boost

## Y genhedlaeth nesaf mewn dysgu digidol

Wedi'i greu gydag athrawon a myfyrwyr mewn ysgolion a cholegau ledled y byd, Boost yw'r genhedlaeth nesaf mewn dysgu digidol, gan ddod â chynnwys o safon a thechnoleg newydd at ei gilydd mewn un llwyfan dysgu rhyngweithiol ar-lein.

## Tanio'r Targed: eLyfr Boost

**Mae eLyfrau Boost yn rhyngweithiol, yn hygyrch ac yn hyblyg. Maen nhw'n defnyddio'r ymchwil a'r dechnoleg ddiweddaraf i roi'r profiad gorau un i fyfyrwyr ac athrawon.**




- **Personoli.** Gallwch lywio drwy'r eLyfr yn hawdd drwy chwilio, chwyddo a chydag oriel ddelweddau. Ewch ati i'w wneud yn bersonol i chi gyda nodiadau, llyfrnodau ac uchafbwyntiau.
- **Adolygu.** Dewiswch ffeithiau a diffiniadau allweddol yn y testun a'u cadw fel cardiau fflach ar gyfer adolygu.
- **Symud.** Gallwch symud yn rhwydd rhwng y fformat argraffedig ar gyfer addysgu ym mlaen y dosbarth a'r fformat rhyngweithiol ar gyfer astudio annibynnol

## Tanio'r Targed: Boost

**Beth sydd wedi'i gynnwys yn eich pecyn digidol?**




- Taflenni gwaith cychwynnol ar gyfer dysgwyr newydd
- Cynlluniau gwaith sy'n amlinellu gwahanol lwybrau addysgu drwy'r Llyfr Myfyrwyr ar gyfer gwahanol lefelau
- Nodiadau athrawon gyda syniadau ar gyfer gwahaniaethu effeithiol a chysylltiadau MDPh
- Adrannau y gellir eu golygu o'r Llyfr Myfyrwyr
- Fideos
- Clipiau sain a thrawsgrifiadau
- Cwisiau prawf ddarllen
- Gweithgareddau darllen yn arddull PISA
- Cwisiau gramadeg a llythrennedd
- Cwisiau cyfieithu
- Taflenni gwaith llenyddiaeth
- Taflenni gwaith asesu

**Rhowch gynnig arnynt am ddim gyda threialon digidol 30 diwrnod**

## Dysgu mwy a rhag-archebu

- Ewch i: **www.hoddereducation.co.uk/Welsh-Language**
- Cysylltwch â'n hymgynghorydd cwricwlwm Cymraeg Siân Zakaria-Morgan: Ffoniwch **07813663283** neu e-bostiwch **Sian.Zakaria-Morgan@hoddereducation.co.uk**

# Am y cwrs hwn




## Ychydig o eiriau gan ein hawduron

**"Dyma lyfr gan athrawon Cymraeg i athrawon Cymraeg.**

Mae'r llyfr arloesol hwn yn cwmpasu'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn iddynt ddod yn rhan o gymdeithas ddwyieithog. Mae cyfleoedd i gydweithio a rhannu barn, i gymharu, cynghori, disgrifio, dehongli a dadansoddi i enwi ond ychydig o'r sgiliau hyn. Mae ymarferion penodol yn arwain y ffordd i uned gynhwysfawr ar ramadeg i gynorthwyo yn yr ystafell ddosbarth ac wrth i ddysgwyr weithio'n annibynnol.

Yn ogystal â hynny, mae unedau penodol ar Gymru, sy'n dathlu hunaniaeth a hanes ein gwlad, a hefyd uned ar lenyddiaeth i sicrhau y gall dysgwyr gael mynediad i drysorau ein byd llenyddol. Mae'r uned hon yn cynnwys uned arbennig ar farddoniaeth gan y bardd Tudur Dylan. Bydd deunydd ychwanegol ar-lein, gan gynnwys cyfres o glipiau sain a chlipiau fideo gwreiddiol, deunyddiau digidol, nodiadau athrawon ac ymarferion darllen PISA.

Nid llyfr cwrs yn unig yw hwn ond yn hytrach na hynny, mae'n wledd o adnoddau, syniadau ac unedau gwreiddiol i gyfoethogi eich addysgu a symud dysgwyr tuag at darged y llywodraeth o gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050"

***Mae'r tîm awduron yn cynnwys athrawon ac arholwyr profiadol. Maen nhw i gyd yn siaradwyr Cymraeg ac maen nhw o bob rhan o'r wlad, o Lanelli i Wrecsam.***

## Cwrdd â golygyddion y gyfres

Mae **Tina Thomas** yn athrawes, awdur ac arholwr profiadol. Hi yw Arweinydd Cymraeg Ail Iaith ERW ac mae'n cyflwyno sesiynau DPP i athrawon yn lleol ac yn genedlaethol. Mae Tina wedi ysgrifennu llawer o adnoddau ar gyfer CA3 a TGAU ac mae'n Brif Arholwr TGAU Cymraeg Ail Iaith.

Yn ogystal â phrofiad helaeth o arwain cyfadrannau ac adrannau, mae gan **Alison Lloyd** brofiad o weithio mewn rôl gynghori ac mae wedi gweithio i ddatblygu'r Gymraeg yn rhanbarthol a thrwy gydweithio cenedlaethol. Mae ganddi brofiad o weithio ar asesu ar gyfer asesiadau a chymwysterau allanol CA2/3 a CA4/5 cenedlaethol.

Mae Llyfr Myfyrwyr *Tanio'r Targed* wedi'i gyflwyno i CBAC i'w gymeradwyo.

Cynhyrchwyd Llyfr Myfyrwyr *Tanio'r Targed* mewn partneriaeth â Gwasg Prifysgol Cymru.

## Dysgu mwy a rhag-archebu

- Ewch i: **www.hoddereducation.co.uk/Welsh-Language**
- Cysylltwch â'n hymgynghorydd cwricwlwm Cymraeg Siân Zakaria-Morgan: Ffoniwch **07813663283** neu e-bostiwch **Sian.Zakaria-Morgan@hoddereducation.co.uk**

# Tanio'r Targed

## CYMRAEG AIL IAITH AR GYFER OEDRANNAU 11–14

Rebecca Boyle, Connor Keyes, Nicola Lewis,
Dafydd Roberts, Tina Thomas,
Sian Vaughan, Keiron Williams, Tudur Dylan Jones
Series Editors: Tina Thomas with Alison Lloyd

Boost
HODDER EDUCATION
AN HACHETTE UK COMPANY

The Publishers would like to thank the following for permission to reproduce copyright material.

**Photo credits**

**p6** *t* Natalia/Adobe Stock; Fanfo/Adobe Stock; Jeff Morgan 11/Alamy; martin/Adobe Stock; Alex Ramsay/Alamy; samott/Adobe Stock; Simon Whaley/Alamy; radenmas/Adobe Stock; iracosma/Adobe Stock; Mercedes Fittipaldi/Adobe Stock; corepics/Adobe Stock; **p6** *c* MARKA/Alamy; Cheese Scientist/Alamy; **p9** Prostock-studio/Adobe Stock; **p10** paulzhuk/Adobe Stock; Didi Lavchieva/Adobe Stock; giemmephoto/Adobe Stock; corepics/Adobe Stock; Jack F/Adobe Stock; olyasolodenko/Adobe Stock; **p14** cipariss/Adobe Stock; Prostock-studio/Adobe Stock; AllisonLouvain/Adobe Stock; Anchalee/Adobe Stock; Ljupco Smokovski/Adobe Stock; **p16** *t* David Wilson/Alamy; *b* David Pimborough/Alamy; **p19** *t* Anton/Adobe Stock; *c* Jacob Lund/Adobe Stock.

**Acknowledgements**

**p12** 'Fo a Fi' © Robat Powell, Y Lolfa; **p13** 'Y Bocs' © Rosie Haywood, Y Lolfa.

Every effort has been made to trace all copyright holders, but if any have been inadvertently overlooked, the Publishers will be pleased to make the necessary arrangements at the first opportunity.

Although every effort has been made to ensure that website addresses are correct at time of going to press, Hodder Education cannot be held responsible for the content of any website mentioned in this book. It is sometimes possible to find a relocated web page by typing in the address of the home page for a website in the URL window of your browser.

Hachette UK's policy is to use papers that are natural, renewable and recyclable products and made from wood grown in well-managed forests and other controlled sources. The logging and manufacturing processes are expected to conform to the environmental regulations of the country of origin.

Orders: please contact Hachette UK Distribution, Hely Hutchinson Centre, Milton Road, Didcot, Oxfordshire OX11 7HH. Telephone: +44 (0)1235 827827. E-mail education@hachette.co.uk Lines are open from 9 a.m. to 5 p.m., Monday to Friday. You can also order through our website: www.hoddereducation.co.uk

ISBN: 978 1 3983 4060 2

© Rebecca Boyle, Connor Keyes, Nicola Lewis, Tudur Dylan Jones, Alison Lloyd, Dafydd Roberts, Tina Thomas, Sian Vaughan and Keiron Williams 2021

First published in 2021 by

Hodder Education,
An Hachette UK Company
Carmelite House
50 Victoria Embankment
London EC4Y 0DZ

www.hoddereducation.co.uk

Impression number 10 9 8 7 6 5 4 3 2 1

Year 2026 2025 2024 2023 2022 2021

All rights reserved. Apart from any use permitted under UK copyright law, no part of this publication may be reproduced or transmitted in any form or by any means, electronic or mechanical, including photocopying and recording, or held within any information storage and retrieval system, without permission in writing from the publisher or under licence from the Copyright Licensing Agency Limited. Further details of such licences (for reprographic reproduction) may be obtained from the Copyright Licensing Agency Limited, www.cla.co.uk

Cover photo

Illustrations by Chantelle and Burgen Thorne

Typeset in Integra Software Services Pvt. Ltd., Pondicherry, India.

Printed in

A catalogue record for this title is available from the British Library.

FSC www.fsc.org
MIX
Paper from responsible sources
FSC™ C104740

# Cynnwys

Cyflwyniad

1 Cymru ........................................ 6

2 Llafar ........................................ 8

3 Llenyddiaeth ........................................ 12

4 Darllen ........................................ 16

5 Ysgrifennu ........................................ 19

Gramadeg


# 1 Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?

**1** Beth sy'n bwysig i chi o ran bod yn Gymraeg? Beth sy'n rhoi eich hunaniaeth i chi?

**a** Copïwch a llenwch y pyramid: pethau pwysicaf yn y top, lleiaf pwysig yn y gwaelod.

**b** Nodwch eich rhesymau *pam* hefyd, tu allan i'r pyramid.

Archwilio hunaniaeth Gymreig gyda'ch myfyrwyr gydag ymarferion difyr sy'n annog trafodaeth ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru




traddodiad/ diwylliant


chwaraeon



iaith


bwyd


dysgu Cymraeg


byd natur


llenyddiaeth


cymdeithas


cerddoriaeth


chwedloniaeth


hanes

**2** Darllenwch y proffiliau isod ac atebwch y cwestiynau.

**Enw:** Ioan Gruffudd
**Geni:** 6 Hydref 1973
**Man geni:** Caerdydd
**Swydd:** Actor – wedi actio mewn ffilmiau Cymraeg
**Hanes:** Wedi dechrau actio yn blentyn ar S4C yn *Pobol y Cwm*
**Diddordebau:** Diwylliant Cymreig, actio, canu'r obo



**Enw:** Ruth Jones
**Geni:** 22 Medi 1966
**Man geni:** Pen-y-bont ar Ogwr
**Swydd:** Actores – wedi actio mewn rhaglenni Cymraeg
**Hanes:** Dysgu'r Gymraeg ar y rhaglen *Iaith ar Daith* yn 2020
**Diddordebau**: Sgriptio, actio a chyfarwyddo ar gyfer rhaglenni teledu



**a** Beth sy'n debyg a gwahanol rhwng Ioan Gruffudd a Ruth Jones? Nodwch ddau beth:
- yn debyg
- yn wahanol.

**b** Dydy Ioan Gruffudd ddim wedi newid ei enw er iddo symud i'r Amerig. Mae cadw ei enw Cymreig yn bwysig iddo. Ydych chi'n cytuno efo fo?

**c** Mae siarad iaith ei gwlad yn bwysig ym marn Ruth Jones, felly mae hi eisiau dysgu Cymraeg. Ydych chi'n cytuno efo hi?

**ch** Mae'r bobl yma yn dod o Gymru. Yn eich barn, ydyn nhw'n falch o'u hunaniaeth Gymreig? Sut maen nhw'n cefnogi'r iaith a diwylliant yng Nghymru? Trafodwch gyda phartner.

3 Gwrandewch ar Tom yn siarad am ei hunaniaeth Gymreig. Cewch wrando ar y clip ddwywaith ar ei hyd.

Defnyddiwch bwyntiau bwled i ateb y cwestiynau isod ar sut mae o'n teimlo.

a Beth mae'r bachgen yn dweud am ei deulu?

b Beth ydy'r pethau mae'r bachgen yn caru am Gymru?

c Pam rydyn ni'n lwcus yma yng Nghymru yn ôl y bachgen?

ch Beth sy'n rhoi croen gŵydd iddo fo a pham?




4 Edrychwch ar y llun isod.

a Gyda'ch partner, penderfynwch beth fysai'r ferch yn dweud am fod yn Gymreig ac am ei hunaniaeth.

b Dewiswch bwynt yr un: ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r ferch? Cofiwch ddilyn y pedwar cam!

## Gramadeg

Defnyddiwch y patrymau brawddeg isod er mwyn dangos pwyslais yn eich brawddegau. Mae 'mai' (N) / 'taw' (S) yr un fath â '*that*' yn Saesneg.

Dw i'n credu **mai/taw**… Dw i'n gwybod **mai/taw**… Dw i'n meddwl **mai/taw**…

5 Tasgau estynedig:

| | |
|---|---|
| **EFYDD**<br>Crëwch stribed animeiddiedig ar gyfer S4C yn sôn am pa syniadau cyffredin sydd yn gwneud hunaniaeth Gymreig. Dylech wylio'r clip fideo Prif Ddysgwr Eisteddfod T 2020 i gymharu safbwyntiau.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• cytuno/anghytuno ag eraill<br>• mewnosod throsleisiau<br>• lliwiau/ffontiau/arddulliau gwahanol. | *Create an animated strip for S4C about which common ideas make up a Welsh identity.* |
| **ARIAN**<br>Crëwch stribed animeiddiedig ar gyfer S4C yn sôn am beth ydy hi i fod yn Gymreig o'ch profiadau personol chi. Dylech wylio'r clip fideo Prif Ddysgwr Eisteddfod T 2020 am ychydig o ysbrydoliaeth.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• deialog rhwng cymeriadau yn dangos gwahanol safbwyntiau<br>• mewnosod clipiau sain a throsleisiau<br>• lliwiau/ffontiau/arddulliau gwahanol. | *Create an animated strip for S4C about what it is to be Welsh from your own personal view.* |
| **AUR**<br>Crëwch stribed animeiddiedig ar gyfer S4C yn sôn am sut allwch chi ddangos eich hunaniaeth i bobl eraill. Dylech wylio'r clip fideo Prif Ddysgwr Eisteddfod T 2020 fel sbardun i'ch gwaith.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• deialog rhwng cymeriadau yn dangos gwahanol safbwyntiau<br>• mewnosod clipiau sain a throsleisiau<br>• lliwiau/ffontiau/arddulliau gwahanol. | *Create an animated strip for S4C about how you can show other people your identity.* |

Mae tasgau estynedig yn ymestyn ac yn herio myfyrwyr, gyda thair lefel wahanol o anhawster – efydd, arian ac aur – i alluogi gwahaniaethu effeithiol

# 2 Llafar

## 1 Hamdden hwylus

### Mynegi barn

**Dw i'n hoffi** *I like*
**Dw i'n mwynhau** *I enjoy*
**Dw i'n dwlu ar** *I love* (SW)
**Dw i'n gwirioni ar** *I love* (NW)
**Dw i wrth fy modd yn** *I'm in my element*
**Mae'n well gyda fi** *I prefer* (SW)
**Mae'n well gen i** *I prefer* (NW)

**Dw i ddim yn hoffi** *I don't like*
**Dw i ddim yn mwynhau** *I don't enjoy*
**Mae'n gas gyda fi** *I despise* (SW)
**Mae'n gas gen i** *I despise* (NW)
**Dw i'n casau** *I hate*
**Dw i'n cytuno** *I agree*
**Dw i ddim yn cytuno** *I don't agree*
**Dw i'n anghytuno** *I disagree*

Galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwybodaeth ramadegol, gyda phwyntiau gramadeg allweddol yn cael eu hamlygu drwyddi draw

Mae camgymeriadau cyffredin yn cael eu dangos i helpu i wella perfformiad myfyrwyr

**Gramadeg**

Dw i'**n**
Dw i ddim **yn**

**Gwallau cyffredin**

✗ Dw i'n ddim yn
✓ Dw i ddim yn

1 Tasg amseru. Sawl brawddeg allwch chi greu heb stopio? Er enghraifft:
**Partner un:** Dw i'n hoffi siopa. Dw i'n dwlu ar …
**Partner dau:** Stopiwch!

2 Beth ydych chi'n hoffi? Trafodwch gyda phartner, fel yn yr enghraifft isod:
**Cwestiwn:** Beth wyt ti'n hoffi?
**Ateb:** Dw i'n dwlu ar siopa gyda ffrindiau.

3 Gwrandewch ar y clip. Copïwch y tabl a rhowch ✓ neu ✗ ar beth mae Dylan a Gareth yn hoffi neu ddim yn hoffi.

| | Dylan | | Gareth | |
|---|---|---|---|---|
| | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Chwarae rygbi | | | | |
| Chwarae pêl-droed | | | | |
| Siopa | | | | |
| Nofio | | | | |
| Rhedeg | | | | |

**neithiwr** *last night*
**rwyt ti'n wallgof** *you're mad*
**weithiau** *sometimes*

Adeiladu geirfa myfyrwyr yn ystod y cwrs gyda rhestrau geirfa allweddol wedi'u cynnwys drwyddi draw

**ydw** *yes (I do)*
**nac ydw** *no (I don't)*

4 Ydych chi'n cytuno neu anghytuno gyda Gareth a Dylan? Trafodwch gyda phartner, fel yn yr enghraifft isod:
**Cwestiwn:** Wyt ti'n hoffi … fel Gareth/Dylan?
**Ateb:** Fel Gareth, dw i'n mwynhau chwarae gemau cyfrifiadur.
**Cwestiwn:** Mae Dylan/Gareth yn hoffi … Wyt ti'n cytuno?
**Ateb:** Ydw/Nac ydw. Dw i'n cytuno/anghytuno gyda …

**5** Mae'n gas gyda Gareth siopa bwyd. Ydych chi'n hoffi'r gweithgareddau yn y tabl isod? Rhowch dau reswm am bob un.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ymlacio | gwylio | gwylio'r teledu | siopa | mynd i'r sinema | darllen | mynd allan gyda ffrindiau |
| chwarae gemau cyfrifiadur | chwarae pêl-droed | chwarae rygbi | chwarae pêl-rwyd | dawnsio | nofio | rhedeg |

Helpu myfyrwyr i feithrin eu gallu ieithyddol gydag ymarferion sy'n datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a siarad allweddol

**6** Defnyddiwch y groes/tic wrth ymyl y lluniau isod i helpu chi ddeud beth ydych chi'n hoffi neu ddim yn hoffi. Er enghraifft:

✗ Dw i ddim yn mwynhau dawnsio

**a** ✓ **b** ✗ **c** ✗ **ch** ✓



**7** Rhaid i chi greu brawddegau llawn am beth ydych chi'n mwynhau neu ddim yn hoffi, i ennill O neu X yn erbyn eich partner.

Er enghraifft:

= Dw i'n mwynhau darllen = O / X ?

**8** Gyda phwy ydych chi'n cytuno? Pam?



9 Ysgrifennwch eich barn am:

- a mynd i’r sinema
- b pêl-droed
- c gemau cyfrifiadur
- ch mynd allan efo ffrindiau
- d rygbi

10 Trafodwch y proffiliau isod gyda phartner. Beth ydy Khalid ac Amira yn hoffi, neu ddim yn hoffi?

**Enw:** Khalid
**Oed:** 13
**Byw:** Abersoch
**Hoffi:** chwarae rygbi, mynd i’r sinema gyda ffrindiau a nofio
**Ddim yn hoffi:** siopa, cerdded a darllen


**Enw:** Amira
**Oed:** 12
**Byw:** Aberteifi
**Hoffi:** ymlacio, gwylio’r teledu a dawnsio
**Ddim yn hoffi:** gwylio chwaraeon, gwaith ysgol a bwyta afalau

11 Darllenwch yr hysbyseb isod a siaradwch am beth rydych chi’n hoffi a ddim yn hoffi.

## Croeso i Ganolfan Chwaraeon Eithafol Cymru

Ydych chi’n hoffi chwarae pêl-droed? Beth am sorbio pêl-droed?





Ydych chi’n mwynhau neidio? Beth am neidio bynji?

Rafftio dŵr gwyn? Dewch i’r Ganolfan Eithafol Cymru.





Mae’r gwifren wib yn 400m o hyd!

Ydych chi’n hoffi reslo? Beth am reslo mewn siwt sumo?



**Dewch i Ganolfan Eithafol Cymru. Mae’n wych! Mae’n hwyl!**
**Pris: £20 am y dydd.**

Mae caffi gyda ni a gallwch chi brynu ffrwythau, pasta, brechdanau, sglodion, pitsa a diodydd fel dŵr, ysgytlaeth a sudd ffrwythau fel sudd afal.



**Ffoniwch 067889283 am fwy o wybodaeth.**

**12** Tasgau estynedig:

| | |
|---|---|
| **EFYDD**<br>Gwaith pâr/grŵp<br>Rydych chi'n siarad ar radio yr ysgol yn cyflwyno'ch hunan ac yn sôn am beth rydych chi'n hoffi a ddim yn hoffi. Mae slot 90 eiliad gyda chi!<br>Cofiwch gynnwys:<br>• cyfarch<br>• enw, oed, enw ysgol<br>• barn positif gwahanol<br>• barn negyddol gwahanol. | *You have a 90-second slot on the school radio to talk about your opinions, what you like and dislike.* |
| ARIAN<br>Gwaith pâr/grŵp<br>Mae'ch athro wedi gofyn i chi recordio sgwrs fel enghraifft i ddosbarth arall ar sut i siarad am beth rydych chi'n hoffi a ddim yn hoffi.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• dechrau priodol<br>• manylion personol<br>• o leiaf dau gwestiwn<br>• barn positif/negyddol gwahanol<br>• pwyslais, e.e. 'bobl bach!'<br>• diwedd priodol. | *Record a conversation to show another class how to discuss what you like and don't like.* |
| **AUR**<br>Gwaith pâr/grŵp<br>Rydych chi'n casglu gwybodaeth yn eich ardal yn darganfod barn pobl wahanol ar chwaraeon gwahanol. Rydych chi'n gofyn sawl cwestiwn, derbyn atebion ac ymateb iddynt. Cofiwch gynnwys:<br>• dechrau priodol<br>• manylion personol<br>• o leiaf pedwar cwestiwn am farn chwaraeon<br>• barn positif/negyddol<br>• cytuno/anghytuno<br>• pwyslais e.e. 'bobl bach!'<br>• diwedd priodol. | *Collect information in your area to discover different people's opinions about sport.* |

# 3 Llenyddiaeth

## 4 Sut fyddech chi'n teimlo?

### Empathi

**Darllenwch y gerdd 'Fo a Fi' gan Robat Powell.**

**Fo a Fi**

Bob bore,
Blaidd Blwyddyn Deg yn aros
Wrth y cornel
Am oen o Flwyddyn Wyth.



Pawen ar yr oen,
Pawen ar fraich,
Cipio'r Mars o'r bag,
Neu'r pres o'r pwrs.



A heddiw dyma'r blaidd,
Yn neidio arna i,
Dannedd yn fflachio,
"Ble mae dy bres?"




Beth dw i am wneud?
Rhoi'r pres yn ei bawen?
Brefu 'mê-mê'
A rhedeg?




Nid oen ydw i,
Ond tarw Blwyddyn Wyth!
"Dos o 'ma'r bwli! Dos at dy griw!"
Ac i ffwrdd ag o – heb siw na miw!




**blaidd** *wolf*
**oen** *lamb*
**pawen** *paw*
**cipio** *(to) snatch*
**fflachio** *(to) flash*
**brefu** *(to) bleat*
**tarw** *bull*
**dos/cer** *go*
**heb siw na miw** *without a sound*

Ymgysylltu myfyrwyr â llenyddiaeth a barddoniaeth Gymraeg gyda darnau o destun ac yna cwestiynau deall i ddyfnhau dealltwriaeth myfyrwyr

**Darllenwch y cwestiynau. Dewiswch yr ateb cywir.**

1 Sut mae'r awdur yn disgrifio'r bwli?



2 Pa eiriau ydy'r awdur yn defnyddio i ddisgrifio'r anifail yma?
   a pawen a dannedd   b cipio a fflachio   c brefu a rhedeg

3 Ym mha flwyddyn ydy'r bwli?
   a 8   b 9   c 10

4 Sut mae'r awdur yn disgrifio'r bachgen sy'n cael ei fwlio?



'Gwaith geiriadur': Meithrin geirfa myfyrwyr gydag ymarferion sy'n annog myfyrwyr i feddwl am wahanol eiriau disgrifiadol

5 Pa eiriau ydy'r awdur yn defnyddio i ddisgrifio'r anifail yma?
   a pawen a dannedd   b cipio a fflachio   c brefu a rhedeg

6 Ym mha flwyddyn ydy e?
   a 8   b 9   c 10



7 Dyma oen: diniwed, tawel, swil, ciwt a bywiog. 
Dyma blaidd. Nodwch pump ansoddair i ddisgrifio blaidd. 



8 Pam ydy'r awdur yn defnyddio'r geiriau 'blaidd' ac 'oen'?

9 Sut ydych chi gallu helpu? Mae bwlio yn broblem yn eich ysgol chi. Rhaid i chi greu neges wrthfwlio dim mwy na 30 eiliad o hyd, ar gyfer tudalen Twitter yr ysgol.




## Y Bocs

Hen focs Kit Kat
ar stepen drws
tu allan i Kwik Save
a chwilt wedi rhwygo
Tŷ pwy ydi hwn?



Mae o'n edrych trwy ei falaclafa du.
Mae o'n gweld
    olwynion troli llawn bwyd.
Mae o'n clywed
    punnoedd yn tincian
    mewn pocedi sy'n pasio.
Mae e'n ogleuo
    chips neu gyrri
    twrci neu bara ffresh.



Pasio mae'r
bobl dew sy wedi bwyta gormod
A'r bobl grand.



"Dim ond bocs sydd gen i …

Geiriau sbeitlyd yn bownsio ar fy nghlustiau ac yn fy nghalon
    dim ond am fy mod i'n
    byw mewn bocs."



**wedi rhwygo** *torn*

**olwynion** *wheels*

**ogleuo/arogli** *(to) smell*

**sy wedi bwyta gormod** *who have eaten too much*

**geiriau sbeitlyd** *spiteful words*

**dim ond am fy mod …** *only because I …*

**Darllenwch y gerdd 'Y Bocs' gan Rosie Haywood.**

1 Copïwch a llenwch y bylchau efo'r geiriau cywir: balaclafa du, bocs, cartref, gas.
   a Mae'r cymeriad yn byw mewn .......... .
   b Does dim .......... gyda'r cymeriad.
   c Mae'r cymeriad yn gwisgo .......... .
   ch Mae pobl yn .......... i'r cymeriad.

2 Copïwch y tabl a nodwch dau beth mae'r cymeriad yn:

| Gweld | Clywed | Ogleuo |
|---|---|---|
| | | |

3 "Dim ond bocs sydd gen i …" – mae hyn yn drist iawn. Sut ydych chi'n defnyddio bocs? Nodwch pump peth.



4 Dyma hen focs. Beth ydy stori'r bocs? Disgrifiwch daith y bocs:

- Dechrau ble?
- Wedyn ble?
- Nawr ble?

5 "Mae o'n edrych trwy ei falaclafa du." Trafodwch mewn grwpiau:

a Beth mae'r balaclafa du yn symboleiddio?

b Pam du? Beth mae du yn symboleiddio?

c Pam balaclava? Beth mae balaclafa yn symboleiddio?



Cael hwyl gyda thafodiaith a gwella gallu myfyrwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol gydag amrywiaeth o weithgareddau diddorol, fel ysgrifennu eu barddoniaeth eu hunain

6 Meddyliwch am eiriau yr awdur. Sut mae'r dyn yn teimlo, yn eich barn chi?

a "Geiriau sbeitlyd"

b "Punnoedd yn tincian mewn pocedi"

c "Olwynion troli llawn bwyd"







7 Ysgrifennwch gerdd eich hunan am dlodi. Mae Rosie Haywood yn defnyddio'r synnwyr gweld, clywed, ogleuo. Beth am ddefnyddio'r pump synnwyr: gweld, clywed, arogli, blasu, teimlo. Defnyddiwch y tabl isod i helpu chi.

**Digartrefedd**

| | Cynllun | Enghraifft |
|---|---|---|
| | Gweld + enw + berf | Gweld dyn ifanc yn cardota |
| | Clywed + enw + berf | Clywed pobl yn beirniadu |
| | Arogli + enw + ansoddair | Arogli dillad carpiog, llaith |
| | Blasu + enw | Blasu anobaith |
| | Teimlo + enw | Teimlo siom |
| ? | Teitl + cwestiwn | Digartrefedd – ein problem ni? |

# Digartrefedd

Gweld dyn ifanc yn cardota
Clywed pobl yn beirniadu

Arogli dillad carpiog, llaith

Blasu anobaith

Teimlo siom

Digartrefedd – ein problem ni?

**Darllenwch y stribed cartŵn isod.**



1 Cafodd Hedd Wyn ei eni ar 13 Ionawr 1887.

2 Ellis Evans oedd ei enw iawn, a Hedd Wyn oedd ei enw barddol.

3 Roedd Ellis yn byw ar fferm o'r enw Yr Ysgwrn, ger Trawsfynydd.

4 Yn ifanc roedd e'n mwynhau ysgrifennu barddoniaeth.

5 Roedd ffrindiau da gyda fe.

6 Roedd Ellis wrth ei fodd yn ysgrifennu barddoniaeth, ac roedd William Morris yn helpu gyda sillafu.

7 Dechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf yn 1914. Doedd Ellis ddim eisiau mynd i'r rhyfel.

8 Ymunodd Griff (ffrind Ellis) â'r fyddin ar unwaith.

9 Breuddwyd Ellis oedd ennill cadair yr Eisteddfod Genedlaethol.

10 Roedd sawl cadair gydag Ellis yn barod.

11 Doedd dim Eisteddfod yn 1914 achos y rhyfel.

12 Roedd dynion ifanc yr ardal yn mynd i'r rhyfel. Roedd rhaid i un o fechgyn Yr Ysgwrn fynd i'r rhyfel – Ellis neu Bob.

13 Yn amlwg, roedd bywyd yn y rhyfel yn ofnadwy.

14 Bu farw Ellis yn 1917 yng Ngwlad Belg, yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

15 Pump wythnos ar ôl farw, daeth llythyr i'r Ysgwrn. Roedd Ellis wedi ennill Cadair yr Eisteddfod.

16 Dyma Eisteddfod "Y Gadair Ddu" achos roedd Hedd Wyn wedi marw. Mae'r gadair yn Yr Ysgwrn hyd heddiw.

1 Darllenwch y datganiadau isod. Copïwch y tabl a ticiwch cywir neu anghywir.

| | Cywir ✓ | Anghywir ✗ |
|---|---|---|
| **1** Ei enw iawn oedd Ellis Evans. | | |
| **2** Roedd Ellis yn hapus i fynd i'r rhyfel. | | |
| **3** Ystyr Hedd Wyn ydy "White Peace". | | |
| **4** Doedd dim Eisteddfod yn 1914. | | |
| **5** Roedd Hedd Wyn yn breuddwydio am dŷ mawr. | | |

2 Darllenwch y sefyllfaoedd isod ac atebwch y cwestiynau.

a Roedd rhaid i Hedd Wyn fynd i'r rhyfel. Beth mae rhaid i chi wneud, ond ddim yn hoffi gwneud?

b Roedd Hedd Wyn yn breuddwydio am ennill gadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Beth ydy eich breuddwydion chi?

c Doedd dim llawer o arian gyda theulu Hedd Wyn. Pa eitemau costus sydd gyda chi?

3 Rhaid i chi creu deipograffeg, neu wordle. Llenwch bob llythyr o'r gair EMPATHI gyda geiriau, ymadroddion a negeseuon addas. Er enghraifft: rhaid stopio bwlio, geiriau sbeitlyd, mae pawb yn bwysig.

EMPATHI

# 4 Darllen

## 5 Llanast y llifogydd

### BODDI TREFI SIR NEWYDD!



Mae pobl Sir Newydd yn drist heddiw achos dydy'r cyngor ddim wedi gwneud dim i helpu atal y llifogydd. Dywedodd Mr Pritchard, cynghorydd y cyngor, "Mae pethau pwysicach i boeni amdanyn nhw na bagiau tywod! Mae digon o dywod ar y traeth. Gallai pobl ddefnyddio'r tywod yna; bydd yn arbed arian a bydd mwy o gyfle gwario ar bethau eraill yn yr ardal."

Ers 2012, mae'r broblem yma wedi bod. Tro ar ôl tro, rhaid i bobl adael eu tai a gadael eu pethau. Colli eu pethau, eu hatgofion. Mae'n amser i'r Llywodraeth wneud rhywbeth, meddai rhai. Does dim eisiau sefyllfa fel Cantre'r Gwaelod ar neb na digwyddiad fel Capel Celyn.

Roedd y newyddion yn dân ar groen llawer o bobl yn Sir Ddinbych heddiw. Roedd pobl yn poeni am eu teuluoedd a'r trefi o gwmpas yr ardal.

**cyngor** *council*
**atal** *(to) stop*
**llifogydd** *floods*
**pwysicach** *more important*
**bagiau tywod** *sand bags*
**arbed** *(to) save*
**atgofion** *memories*
**Llywodraeth** *Government*
**tân ar groen** *irritate/ upset*

### Y DRYWERYN NEWYDD?



Ar 1 Awst 1957 penderfynodd y Senedd foddi pentref Capel Celyn a Chwm Tryweryn yn Y Bala. Pam? Roedd Lerpwl angen dŵr ac roedd Capel Celyn a Chwm Tryweryn wedi cael eu boddi i greu cronfa ddŵr Llyn Celyn.

Yng Nghapel Celyn, roedd 12 fferm, ysgol, mynwent, swyddfa bost ac 800 acer o dir. Roedd teuluoedd wedi byw yno ers blynyddoedd ac roedd 70 o bobl wedi gorfod gadael eu cartrefi.

Ar 28 Hydref 1965, agorodd cronfa ddŵr Llyn Celyn ac roedd Capel Celyn a Chwm Tryweryn wedi mynd. Ydyn ni eisiau i hyn ddigwydd yn y sir? Gall ein hardal ni foddi fel digwyddodd yn y Bala!

**y Senedd** *Parliament*
**angen** *(to) need*
**boddi** *(to) drown*
**creu** *(to) create*
**cronfa ddŵr** *reservoir*
**mynwent** *graveyard*
**gorfod** *(to) have to*
**gadael** *(to) leave*

## Casglu a chyfnewid gwybodaeth

1 Dyma ddwy erthygl yn sôn am lifogydd. Darllenwch yr erthyglau ar goedd:

a yn unigol   b gyda phartner neu ffrind   c fel grŵp/dosbarth.

2 Fedrwch chi ddarganfod gwybodaeth am lifogydd yn eich ardal chi?

a Crëwch siart pei i ddangos yr effaith yn y gwahanol siroedd ar draws Cymru.

b Pa sir ydy'r gwaethaf?

c Ysgrifennwch am eich canlyniadau.

3 Darllenwch y datganiadau isod. Copïwch y tabl a ticiwch cywir neu anghywir:

| | Cywir ✓ | Anghywir ✗ |
|---|---|---|
| Dydy'r cyngor heb wneud llawer i stopio'r llifogydd. | | |
| Hoffai'r cyngor wario arian ar bethau eraill. | | |
| Mae'r broblem yn bodoli ers y flwyddyn dau dim dau dim. | | |
| Hoffen nhw weld Cantre'r Gwaelod yn digwydd eto. | | |
| Roedd y bobl yn hoffi'r newyddion; doedd neb yn poeni dim. | | |
| Roedd Lloegr angen dŵr – felly roedd angen cronfa ddŵr. | | |
| Digwyddodd boddi Capel Celyn a Thryweryn ym mis Hydref. | | |
| Roedd rhaid i fwy na hanner cant o bobl adael eu tai yn y Bala. | | |

4 Rhowch y digwyddiadau yma yn y drefn maen nhw'n ymddangos yn yr erthygl:

- Agorodd y cronfa ddŵr ym mil naw chwech pump. ☐
- Roedd deuddeg fferm yng Nghapel Celyn. ☐
- Ym mis Awst, penderfynodd y Senedd foddi Capel Celyn. ☐
- Roedd wyth cant acer o dir wedi cael eu boddi. ☐
- Roedd Lerpwl angen cronfa ddŵr. ☐
- Gall ein hardaloedd ni foddi hefyd. ☐

**Gwallau cyffredin**

Remember when using past tense, you don't need 'dw i'. For example:

✗ Dw i'n gwelais i sbwriel ar y llawr.

✓ Gwelais i sbwriel ar y llawr.

5 Ydych chi'n cytuno bod problemau yn eich ardal?

a Beth ydy'r problemau?

b Sut allech chi helpu wella'r broblem?

6 Beth ydy themâu'r erthyglau? Oes problemau fel hyn yn eich ardal chi? Dylech chi:

a gyfeirio at y darnau darllen   b defnyddio eich ymchwil chi!

**Yn ôl yr ymchwil** *According to the research*
**Dywedodd ___** *___ said*
**Dw i'n debyg** *I'm similar*
**Dw i'n wahanol** *I'm different*

**Does dim dwywaith amdani** *There are no two ways about it*
**i'r dim** *exactly*
**llawer o** *lots of*
**ychydig o** *a little of*

**digon o** *enough of*
**Faswn i ddim yn** *I wouldn't*
**Gwelais i** *I saw*
**Darllenais i** *I read*
**Gwyliais i** *I watched*

7 Gwyliwch y clip fideo yn sôn am lifogydd mewn ardaloedd gwahanol a'r effaith maen nhw'n cael. Ymatebwch yn eich grwpiau gan ddilyn y pedwar cam.

Defnyddio ysgogiadau gweledol ac adeiladu sgiliau gwrando gydag ymarferion fideo. Mae'r cynnwys fideo wedi'i gynnwys yn y deunyddiau digidol ategol Boost i athrawon

Cam 1 – Cyfeirio
↓
Cam 2 – Cytuno/anghytuno
↓
Cam 3 – Mynegi barn
↓
Cam 4 – Amserau eraill y ferf i berthnasu

| | |
|---|---|
| **taflu'r cyfan** *(to) throw the lot* | **profi** *(to) test* |
| **angen** *(to) need* | **yn golygu** *(to) mean* |
| **addo** *(to) promise* | **diweddaraf** *most recent* |
| **dodrefn** *furniture* | **tir** *land* |
| **offer trydanol** *electric equipment* | **cnydau** *crops* |
| **trysorau** *treasures* | **ailblannu** *replant* |
| **tynnu sylw** *(to) draw attention* | **cloddiau** *hedges* |
| **sylw** *comment* | **llysdyfiant naturiol** *natural vegetation* |
| **tybed** *I wonder* | **adeiladau** *buildings* |
| **clefyd** *disease* | |

## Gramadeg

Cofiwch ddefnyddio idiomau i wella eich iaith!

Rhaid i chi beidio *You mustn't*

Ar ôl pwyso a mesur *After weighing up*

arllwys y glaw *pouring down with rain*

**8** Tasgau estynedig:

| | |
|---|---|
| **EFYDD**<br>Ysgrifennwch gofnod dyddiadur yn sôn am daith i weld eich cyngor lleol am y broblem llifogydd yn eich ardal. Cofiwch ddefnyddio'r dystiolaeth o'r siart pei a'r ymchwil i'ch helpu.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• eich rheswm dros ysgrifennu<br>• problemau eraill sydd yn yr ardal<br>• sut hoffech chi helpu i wella'r broblem. | *Write a diary entry talking about a trip to see your local council to discuss the problem with flooding in your area.* |
| **ARIAN**<br>Ysgrifennwch gofnod dyddiadur yn crynhoi'r prif bwyntiau hoffech chi drafod mewn cyfweliad am lifogydd. Cofiwch ddefnyddio'r dystiolaeth o'r siart pei a'r ymchwil i'ch helpu.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• ble rydych chi'n byw a sôn am y broblem yno<br>• barn rhywun sy'n eich gwrthddweud chi<br>• beth hoffech chi weld yn digwydd i wella'r broblem. | *Write a diary entry summarising the main points you would like to discuss in an interview about flooding.* |
| **AUR**<br>Ysgrifennwch gofnod dyddiadur fel trigolyn o bentref ar ôl gorfod gadael oherwydd llifogydd. Cofiwch ddefnyddio'r dystiolaeth o'r siart pei a'r ymchwil i'ch helpu.<br>Cofiwch gynnwys:<br>• pam rydych chi wedi gorfod gadael<br>• ymatebion eraill i'r broblem<br>• beth allai'r cyngor/ llywodraeth wneud i helpu atal hyn yn y dyfodol. | *Write a diary entry as a member of a village after having to leave due to flooding.* |

# 5 Ysgrifennu

## 5 Pwysau'r ifanc

### Dehongli a dadansoddi

### Dehongli iaith

**1** Dyma farn chwaraewr rygbi ar bobl ifanc heddiw. Ysgrifennwch ymateb i'r cwestiwn.



Yn fy marn i, y broblem fwyaf ymhlith pobl ifanc heddiw ydy gordewdra. Pan oeddwn i'n ifanc, roeddwn i'n mwynhau chwarae rygbi, pêl-droed, pêl-fasged … chwaraeon o bob math! Ond heddiw, mae gormod o bobl ifanc yn aros yn y tŷ yn chwarae gemau fideo. Beth sy wedi newid?

**2** Darllenwch sgwrs y tri ffrind.



| | |
|---|---|
| Rhian | Bechgyn, mae gen i gwestiwn i chi. Beth ydy'r broblem fwyaf yn ein hysgolion heddiw? |
| Tom | Cwestiwn syml – ysmygu! Mae'n broblem enfawr yn fy ysgol i, ond mae'n ffiaidd yn fy marn i! |
| Dewi | Mae llawer o bobl yn ysmygu yn fy ysgol i hefyd, Tom. Ond dw i ddim yn gweld y broblem. |
| Tom | Beth? Mae ysmygu yn ddrwg i chi – mae'n troi dannedd person yn felyn, mae'n drewi ac mae'n achosi canser! Mae llawer o broblemau gydag ysmygu! |
| Rhian | Paid â dechrau ysmygu, Dewi! Mae'n gwestiwn anodd, Tom. Mae llawer o broblemau heddiw – ysmygu, gordewdra, bwlio … hyd yn oed yfed dan oed! |
| Tom | Yfed alcohol yn yr ysgol? Dim gobaith! |
| Dewi | Wel, dw i wedi trio ysmygu Rhian, ond roedd yn ofnadwy! Dw i wedi yfed alcohol hefyd, ond dim yn yr ysgol! Mae gen i ffrindiau sy'n yfed alcohol bob penwythnos ac maen nhw'n iawn. |
| Tom | Pam mae pobl yn ysmygu ac yfed alcohol? Dydy hyn ddim yn cŵl! |
| Rhian | Dw i ddim yn eu deall nhw, Tom. Allwn i ddim ysmygu – mae rhaid i fi fod yn ffit i chwarae pêl-droed. |
| Dewi | Roeddwn i'n ysmygu i ffitio mewn, ond dydy ysmygu ddim i fi. |
| Tom | Diolch byth. Ddylech chi ddim bod yn yfed alcohol chwaith, Tom. Mae pobl ifanc blwyddyn deg yn achosi trwbl bob penwythnos ar ôl yfed alcohol. Daeth plismon i'r ysgol mis diwethaf i siarad â nhw. |
| Dewi | Beth? Dw i ddim eisiau bod mewn trwbl! |
| Rhian | Wel, beth wyt ti'n mynd i wneud 'te? |

Pa un sy'n gywir? Dewiswch un datganiad o'r grwpiau a–ch isod.

**a**
- Mae ysmygu yn broblem yn y tair ysgol.
- Mae ysmygu yn broblem yn ysgol Rhian yn unig.
- Dydy ysmygu ddim yn broblem yn ysgolion.

**b**
- Mae Tom yn ysmygu 10 sigarét bob dydd.
- Mae'r tri bachgen wedi trio ysmygu.
- Dim ond Dewi sy wedi trio ysmygu.

**c**
- Mae plant bl. 10 yn yfed alcohol yn ysgol Dewi.
- Mae plant bl. 10 yn yfed alcohol yn ysgol Tom.
- Mae plant bl. 10 yn yfed alcohol yn ysgol Rhian.

**ch**
- Dydy Rhian ddim yn yfed alcohol i gadw'n ffit.
- Mae Rhian yn ysmygu ac yfed alcohol weithiau.
- Dydy Rhian ddim yn ysmygu i gadw'n ffit.

**2** Ar ôl darllen y sgwrs, nodwch:
- un peth positif, ac esbonio pam.
- un peth sy'n poeni chi, ac esbonio pam.

**3** Crëwch tair brawddeg arall o'r grid isod, e.e. Mae ysmygu yn achosi canser.


| | | | |
|---|---|---|---|
| Dylen ni | yfed alcohol | ddim yn | gyrru car |
| Dydy | ysmygu | a | yn yr ysgol |
| Mae | wneud | yn achosi | dderbyniol |
| Ddylen ni ddim | bwlio | ymarfer corff | canser |

Datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o sut mae'r Gymraeg yn gweithio, gydag ymarferion i'w helpu i adeiladu eu brawddegau eu hunain

## Dehongli data

Helpu myfyrwyr i ddechrau meddwl yn feirniadol gyda gweithgareddau sy'n gofyn iddynt ddadansoddi a dehongli data

**4** Mae llawer o broblemau yn ysgolion heddiw. Mae'r graff isod yn dangos beth mae cant o ddysgwyr blwyddyn 9 yn meddwl ydy'r broblem fwyaf. Edrychwch yn ofalus ar y graff.




Beth ydy'r broblem fwyaf ym mlwyddyn 9?

Copïwch a llenwch y bylchau.

- Yn ôl y graff, y broblem fwyaf yn yr ysgol ydy .......... .
- Mae chwarter y dysgwyr yn meddwl bod .......... yn broblem.
- Dydy .......... ddim yn broblem fawr yn yr ysgol.
- Mae .......... yn llai o broblem yn fy ysgol i.
- Mae .......... yn fwy o broblem yn fy ysgol i.
- Mae 15 y cant mwy o bobl yn dweud bod .......... yn fwy o broblem na .......... .
- Mae 10 y cant yn meddwl bod yfed dan oed yn broblem ond treian o'r canran sy'n meddwl bod .......... yn broblem.

5 Gordewdra ydy'r broblem fwyaf yn yr ysgol hon. Rhaid i chi:

- esbonio pam bod gordewdra yn broblem heddiw.
- cynnig cyngor ar sut i wella'r broblem.

6 Ydy eich ysgol chi yn debyg neu'n wahanol i'r ysgol hon? Nodwch un peth sy'n debyg ac un peth sy'n wahanol.

7 Tasgau estynedig:

| | |
|---|---|
| **EFYDD**<br>Defnyddiwch eich sgiliau dehongli i ymateb i un o'r sbardunau ar y mat iaith. | *Use your interpreting skills to respond to a stimulus on the language mat.* |
| **ARIAN**<br>Defnyddiwch eich sgiliau dehongli i ymateb i o leiaf tri o'r sbardunau ar y mat iaith. | *Use your interpreting skills to respond to at least three stimuli on the language mat.* |
| **AUR**<br>Defnyddiwch eich sgiliau dehongli i ymateb i fwyafrif y sbardunau ar y mat iaith. | *Use your interpreting skills to respond to the majority of the stimuli on the language mat.* |

# Tanio'r Targed

## CYMRAEG AIL IAITH AR GYFER OEDRANNAU 11–14

**Anogwch fyfyrwyr i ymgysylltu â'r Gymraeg wrth iddynt ddarganfod mwy am eu gwlad, eu llenyddiaeth a'u treftadaeth, tra'n datblygu'r sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu sydd eu hangen ar gyfer TGAU.**

**LLYFRYN ENGHREIFFTIOL**

## CWRICWLWM I GYMRU

### Adnoddau newydd i gefnogi ysgolion gyda Chwricwlwm newydd Cymru

Rydym yn cyhoeddi amrywiaeth o adnoddau argraffedig a digidol newydd sbon i gefnogi Cwricwlwm newydd Cymru i'w addysgu am y tro cyntaf o 2022. Wedi'u cynhyrchu mewn partneriaeth â Gwasg Prifysgol Cymru, bydd ein hadnoddau'n helpu athrawon a myfyrwyr i lywio'r cwricwlwm newydd yn hyderus a byddant yn cefnogi'r Meysydd Dysgu a Phrofiad canlynol:

**Mathemateg a Rhifedd**
- Mathemateg

**Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu**
- Yr iaith Gymraeg
- Saesneg (cynllunydd cwrs yn unig)

**Dyniaethau**
- Daearyddiaeth
- Hanes
- Crefydd, gwerthoedd a moeseg

**Gwyddoniaeth a thechnoleg**
- Gwyddoniaeth
- Dylunio a Thechnoleg
- Cyfrifiadura

**Iechyd a Lles**
- Iechyd a Lles

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein cyhoeddiadau newydd ar gyfer cwricwlwm Cymru, cofrestrwch i dderbyn eDdiweddariadau ar gyfer eich pynciau: Ewch i **www.hoddereducation.co.uk/e-updates**

**Gofynnwch am gopïau eArolwg/treialon digidol rhad ac am ddim a rhag-archebu eich adnoddau**

- Ewch i **www.hoddereducation.co.uk/Welsh-Language**
- Cysylltwch â'n hymgynghorydd cwricwlwm Cymraeg Siân Zakaria-Morgan drwy ffonio **07813663283** neu e-bostio **Sian.Zakaria-Morgan@hoddereducation.co.uk**

HODDER EDUCATION
t: 01235 827827
e: education@hachette.co.uk
w: hoddereducation.co.uk

ISBN: 9781398340602